

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 13 MEHEFIN 2019**

**TEITL: CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 – ALLDRO REFENIW**

**PWRPAS: EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL  
TERFYNOL 2018/19**

**GWEITHREDIAD: Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio  
o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2018/19, a  
chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli  
cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.**

**SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET  
CYLLID**

---

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2018/19 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael ei gyflwyno ym Mis Gorffennaf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
2. Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 21 Mai o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.
3. Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.